# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 29AIN MEHEFIN, 2021**

Lleoliad

**Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Natalie Lloyd Jones**

**01286 679780**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 21 Mehefin 2021)

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

**AELODAETH (14)**

### Plaid Cymru (7)

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels
Annwen Hughes
Linda Ann Jones
Olaf Cai Larsen
Judith Mary Humphreys
Edgar Wyn Owen
Mair Rowlands

### Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd Jones
Dewi Wyn Roberts
Hefin Underwood
Eryl Jones-Williams

### Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Anwen J. Davies

### Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Dewi Owen

### Propel (1)

Y Cynghorydd Dylan Bullard

### Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2021/22.

## 2. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sydd yn fater o frys yn nhyb y cadeirydd er mwyn eu hystyried.

## 5. COFNODION — 4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18fed Chwefror, 2021, yn cael eu harwyddo fel rhai cywir.

## 6. ADRODDIAD HOLIADUR BODLONRWYDD — 10 - 12

Rhannu ymatebion yr Holiadur Bodlonrwydd Aelodau gyda'r Tîm Gwasanaethau Democratiaeth.

## 7. PARATOI AT ETHOLIADAU 2022 — 13 - 17

Cyflwyno'r rhaglen waith drafft.
Gofyn am arweiniad ar y cyfeiriad ar gyfer darpariaeth TG yn dilyn yr etholiad

## 8. AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH — 18 - 19

I gyflwyno datganiad drafft i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth er sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w fabwysiadu.

## 9. MYNEDIAD I'R CYHOEDD — 20 - 29

Cymeradwyo polisi drafft ar sicrhau mynediad i'r cyhoedd i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 08/07/2021
Treialu trefniadau webinar.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH
# DYDD IAU, 18 CHWEFROR 2021

**YN BRESENNOL:**

**Cynghorwyr:**

Anne Lloyd Jones (Cadeirydd), Annwen Daniels, Annwen Davies, Anwen Hughes, Judith Humphreys, Eryl Jones-Williams, Linda Ann Jones, Cai Larsen, Edgar Wyn Owen, Robert Dewi Owen, Dewi Wyn Roberts, Mair Rowlands.

**Swyddogion:** Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth), Carey Cartwright (Rheolwr Dysgu a Datblygiad y Sefydliad), Cara Williams (Swyddog Datblygu Aelodau) a Natalie Lloyd Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Hefin Underwood.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd mater brys.

## 4. COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y pwyllgor blaenorol ar y 17/11/2020 yn gywir.

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

Cyflwynwyd adroddiad blynyddol drafft gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ar gyfer derbyn unrhyw sylwadau gan y pwyllgor cyn ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn ym Mis Mai 2021.

Rhoddwyd rhagair yn nodi bod rôl gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith ynghyd a'r swyddogion, i adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael i aelodau yn barhaus.

Adroddwyd yn ôl ar ddiwedd flwyddyn heriol gan bwysleisio a llongyfarch bod holl aelodau etholedig wedi ymgyfarwyddo gyda phwyllgorau rhithiol erbyn hyn.

Rhoddwyd trosolwg cryno ar gynnwys yr adroddiad gan dynnu sylw at lwyddiannau'r adran, yn cynnwys:

- Addasu i ganiatáu mynediad o bell i swyddogion ac aelodau er mwyn gwireddu gofynion y ddeddf lywodraeth leol.
- Cyfeirio yn uniongyrchol at Arweinydd Tîm Cyfieithu a'r cyfieithwyr am addasu i ddulliau newydd.
- Cyfeirio'n uniongyrchol at y tîm T.G gyda chyfeiriad arbennig at y Rheolwr Swyddfa Rhaglen am ei ymroddiad a chymorth.
- Trafod y prosiectau megis Porth Aelodau a'r Fewnrwyd sy'n sicrhau bod y wybodaeth bwysig ar gael i aelodau'n rhwydd.
- Gofyn i aelodau os yw cynnwys yr adroddiad yn cyfarch eu hanghenion.

Yn ystod y drafodaeth, cafwyd y sylwadau isod gan aelodau:

- Diolchwyd am yr adroddiad a'r wybodaeth gynhwysfawr gan nodi bod derbyn y rhain yn caniatáu i'r aelodau wybod am weithdrefnau'r adran.
- Nodwyd nad oedd y porth aelodau yn hollol barod i'w ddefnyddio ond mynegwyd brwdfrydedd at gael ei defnyddio yn y dyfodol agos.
- Croesawyd y ffordd newydd ymlaen o barhau â phwyllgorau'n rhithiol ar gyfer y mwyafrif helaeth ohonynt, nodwyd rhesymau o blaid hyn megis arbed amser teithio a hybu mwy o bobl i sefyll mewn etholiad yn y dyfodol.
- Tynnwyd sylw at yr angen i ystyried diogelu gwybodaeth Cynghorwyr.
- Nodwyd bod angen sicrhau bod gan aelodau argaeledd lawn at adnoddau gan gynnwys dyfeisiau a'r cyswllt priodol at y we os bydd gweithdrefnau'n symud yn barhaol i fod yn rhai rhithiol.
- Cymorth i adnewyddu adnoddau
- Gofynnwyd a yw holl aelodau etholedig y Cyngor wedi cofrestru efo'r comisiynydd gwybodaeth.

Mewn ymateb i'r sylwadau hyn nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth bod y gwasanaeth T.G. yn y broses o edrych ar y Porth Aelodau i sicrhau mynediad i bawb gan fod angen mân addasiadau cyn ei lansio.

Cytunodd bod diogelu gwybodaeth yn elfen bwysig iddynt ei hystyried, yn enwedig gan bo swyddogion ac aelodau yn gweithio o adref ac yn parhau i ddelio â gwybodaeth. Ategodd y bydd diogelu gwybodaeth yn bwnc i roi mwy o sylw iddo i'r dyfodol ac y bydd mwy o wybodaeth yn cael ei adrodd yn ôl yn y dyfodol.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad a chytunwyd i gyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Llawn ym mis Mai 2021.

**6. FFRAMWAITH PWYLLGORAU**

Cafwyd trosolwg o resymeg yr adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth. Nodwyd mai diben yr adroddiad yw cyflwyno fframwaith ar gyfer cynnal pwyllgorau yn y dyfodol. Eglurwyd y byddai'r gyfran helaeth i'w cynnal yn rhithiol fodd bynnag cydnabuwyd y bydd angen rhai wyneb yn wyneb yn achlysurol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith gan drafod yr egwyddorion drafft ar gyfer cynnal pwyllgorau a chyfarfodydd yn y sefyllfa bresennol a'r dyfodol. Trafodwyd y mathau gwahanol o sefyllfaoedd posib a pha bwyllgorau fyddai'n debygol o ddychwelyd i ffurf wyneb i wyneb pan fyddai modd gwneud hynny. Nodwyd mai'r eithriadau i bwyllgorau a chyfarfodydd rhithiol fydd cyfarfod y Cyngor Llawn, Pwyllgorau Apêl Cyflogaeth (yn ddibynnol ar ddymuniad yr apelydd), Is-bwyllgor Trwyddedu (yn ddibynnol ar ddymuniad yr ymgeisydd) a Phwyllgor Penodi Prif Swyddogion (ar achlysur cyfweliadau).

Ychwanegwyd yr angen i atgyfnerthu hawl a dyletswydd aelodau i siarad Cymraeg ym mhob cyfarfod. Nodwyd bod hyn yn hynod bwysig yn enwedig o fewn pwyllgorau a chyfarfodydd rhanbarthol gan fod angen hybu eraill i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn ei normaleiddio.

Yn ystod y drafodaeth, cafwyd y sylwadau isod gan aelodau:

- Diolchwyd am yr adroddiad a nodwyd bod hyn yn newid aruthrol gan fod pwyllgorau a chyfarfodydd y Cyngor wedi digwydd wyneb i wyneb ers y cychwyn.
- Codwyd ambell i bryder, yn arbennig sefyllfa ar gyfer aelodau newydd. Ategwyd bod naws y swyddfa a siambr yn gyfle i ryngweithio ac i sgwrsio gyda chyd-aelodau, bydd hyn efallai yn golled i rai fel aelodau newydd sydd angen ymgyfarwyddo ag aelodau a swyddogion ar gychwyn y tymor.
- Gofynnwyd a fydd swyddogion yn profi'r un newidiadau yn eu dulliau o weithio fel bydd yr aelodau, h.y. a fyddant hwy yn parhau i gwrdd yn rhithiol wedi i gyfyngiadau llacio.
- Cynigwyd y bydd yn hanfodol yn achlysurol i gwrdd wyneb yn wyneb er mwyn herio a chraffu.
- Nodwyd bod argaeledd Teams yn hwyluso cysylltu â swyddogion yn ystod y cyfnod presennol gan ei fod yn fwy personol na galwad ffôn.
- Gofynnwyd a fyddai'n bosib trefnu sesiwn hyfforddiant ar ddefnyddio Zoom i aelodau.
- Atgyfnerthwyd pwysigrwydd atgoffa trefnyddion bod hawl i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cyfarfodydd rhithiol. Ategwyd hyn drwy gynnig y dylid ei ychwanegu at brotocol cyfarfodydd rhithiol.
- Nodwyd bod argaeledd swyddogion angen ei sicrhau cyn symud y trefniadau'n ffurfiol i fod yn rhithiol gan nad ydynt bob amser ar gael ar e-bost yn sydyn.
- Gofynnwyd a oedd pawb, gan gynnwys aelodau a swyddogion, wedi cael eu holi am eu barn bersonol hwy ar symud i ddull rhithiol parhaol yn y dyfodol.

Cafwyd yr ymatebion isod i'r sylwadau:

- Cadarnhawyd y bydd ceisiadau yn cael eu hystyried os bydd yr angen i gynnal cyfarfodydd wyneb i wyneb, yn enwedig mewn achosion pan fo'n angenrheidiol.

- Nodwyd na fydd swyddogion yn dychwelyd i hen drefniadau yn y swyddfa lle nad oes angen gwneud hynny. Ategwyd bod gwasanaethau yn y broses o adnabod pa swyddogaethau sy'n gallu cael eu cynnal o gartref yr un mor llwyddiannus ag yn y swyddfa.
- Derbyniwyd nad yw'n briodol i bawb addasu eu model gwaith, fodd bynnag mae'r rheolwyr yn y broses o asesu hyn.
- Cadarnhawyd bydd modd gweithio tu hwnt i'r fframwaith arfaethedig, er enghraifft yn dilyn etholiad ar gyfer anwytho aelodau newydd. Bydd hyn yn angenrheidiol er mwyn iddynt gynnal sgyrsiau a chyfarfodydd efo aelodau sy'n dychwelyd, swyddogion ac aelodau newydd.
- Mewn ymateb i'r sylw ynghylch argaeledd swyddogion, nodwyd bod rhifau cyswllt yn parhau'r un fath felly mae modd cysylltu gyda swyddogion yn uniongyrchol petai e-bost yn ddull rhy araf.
- Sicrhawyd y bydd y gwasanaeth yn ymrwymo i adolygu'r fframwaith pe byddai'r angen yn codi.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad.**

## 7. YMGYNGHORIAD OMBWDSMAN GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro gan nodi bod yr Ombwdsman yn ymgynghori ar ganllawiau drafft newydd ar y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Tref a Chymuned.

Nodwyd bod y ddogfen yn un ar gyfer esbonio'r cod i aelodau mewn modd dealladwy ag er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth ymysg aelodau o hyn sy'n gynwysedig.
Tynnwyd sylw at y prif agweddau o gorff yr adroddiad ac yn dilyn hynny gofynnwyd i aelodau'r pwyllgor am eu sylwadau. Ategwyd mai'r prif bwyntiau i'w hystyried yw pa mor ddefnyddiol ydy'r ddogfen ar gyfer eu cynorthwyo hwy yn bersonol i ddeall gofynion y cod ymddygiad ac a yw'r ddogfen o ddefnydd iddynt fel aelodau.

Eglurwyd y byddai'r sylwadau ar yr ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Safonau ar yr 22ain o Chwefror, 2021.

Yn ystod y drafodaeth, cafwyd y sylwadau isod gan aelodau:

- Nodwyd nad oedd y ddogfen yn trafod unrhyw gosbau posib a fydd yn disgyn ar aelodau petaent yn torri'r cod ymddygiad.
- Rhoddwyd y sylw bod y cod ymddygiad yn pwysleisio rhagdybiaeth bod angen i gynghorwyr fod yn groendew ag i dderbyn y byddwch yn agored i feirniadaeth bersonol.
- Ategwyd at hyn gan ofyn lle mae'r ffin i'r feirniadaeth oherwydd gall hynny rhwystro pobl rhag sefyll fel cynghorwyr.
- Rhoddwyd sylw nad yw'r cod ymddygiad yn sôn am glercod cynghorau cymuned a nodwyd y gallai fod yn destun pryder ynghylch dyletswyddau'r clercod i ddatgan buddiannau lle bo'n briodol.

Cafwyd yr ymatebion isod i'r sylwadau, gan y Swyddog Monitro:

- Nodwyd ei fod yn anodd adnabod ble mae'r ffin ynghylch beirniadaeth, fodd bynnag beirniadaeth wleidyddol yn unig sydd yn dderbyniol a difrïo personol yn annerbyniol.
- Mewn ymateb i'r pryder ynghylch clercod cymuned, nodwyd bod ganddynt god ymddygiad uniongyrchol sef cod ymddygiad swyddogion statudol. Ategwyd bod y rheolau yn wahanol ond caiff ei weithredu yn yr un modd a chod ymddygiad aelodau etholedig.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad.**

## 8. CALENDR CYFARFODYDD

Cyflwynwyd y calendr arfaethedig gan yr Arweinydd Tîm Democratiaeth. Rhoddwyd gerbron y pwyllgor er mwyn derbyn sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Mawrth. Ychwanegwyd bod y calendr sydd gerbron y pwyllgor heddiw eisoes wedi ei gylchredeg o amgylch swyddogion er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â gofynion statudol a chyllidol.

Yn ystod y drafodaeth, cafwyd un sylw gan aelod nad oedd dyddiadau i weld ar gyfer pwyllgorau ardal.

Mewn ymateb, nododd Arweinydd Tîm Democratiaeth nad yw pwyllgorau ardal yn rhan o'r calendr dan sylw, fodd bynnag bydd cyfarfodydd y pwyllgorau ardal yn ail gychwyn yn y dyfodol agos.

**PENDERFYNIAD:**

**Derbyn yr adroddiad gan gyflwyno'r argymhelliad i'r Cyngor llawn ym mis Mawrth, 2021**

## 9. HYFFORDDIANT I AELODAU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Dysgu a Datblygu i ddiweddaru'r pwyllgor ar yr hyfforddiant sydd wedi bod ar gael i aelodau ers y pwyllgor diwethaf. Atgoffwyd y pwyllgor sut mae'r dulliau darparu hyfforddiant wedi addasu dros y cyfnod COVID-19. Ychwanegwyd bod hyn wedi bod yn gyfle i dreialu dull newydd o dderbyn adborth drwy ddull ar-lein.

Rhoddwyd crynodeb o'r digwyddiadau diweddar gan ategu bod cyfnod distaw cyn etholiad ar y gweill. Cyfeiriwyd at y rhaglen ddiweddaraf er gwybodaeth i aelodau'r pwyllgor a

gofynnwyd am unrhyw fewnbwn gan aelodau ar feysydd hyfforddiant posib ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth, cafwyd y sylwadau isod gan aelodau:

- Diolchwyd am y ddarpariaeth dda sydd wedi bod gyda hyfforddiant rhithiol ac ategwyd bod yr adroddiad yn ddarlun cywir o'r ddarpariaeth.
- Nodwyd bod llawer mwy i'w weld yn mynychu sesiynau rhithiol o gymharu â rhai yn y gorffennol
- Nodwyd gan aelod y byddai taflen adborth ar bapur yn ddefnyddiol gan fod aelodau yn derbyn nifer o e-byst a bod posibilrwydd 'r e-bost adborth fynd ar goll yn eu canol.
- Dywed fod y rhaglen hyfforddiant yn cynnwys nifer cytbwys o hyfforddiant yn ogystal ag cyfleoedd datblygiad personol.
- Gofynnwyd a fydd modd uwch lwytho recordiadau o'r sesiynau hyfforddiant ar gyfer aelodau na ellir mynychu.
- Rhoddwyd cais am sesiynau T.G er mwyn datblygu gwybodaeth yn y maes ac ategwyd byddai'r rhain yn fwy defnyddiol mewn grwpiau bach neu 1-i-1.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod nododd y Swyddog Datblygu Aelodau;

- Byddai modd sicrhau bod taflenni yn cael eu cylchredeg er mwyn derbyn adborth aelodau yn dilyn sesiynau hyfforddiant.
- Eglurwyd bod nifer o'r sesiynau diweddar wedi bod yn rhai ar gyfer codi ymwybyddiaeth felly doedd dim dull casglu adborth wedi ei rannu.
- Cadarnhawyd bod cyfres o sesiynau T.G mewn grwpiau bychain wedi eu trefnu ar gyfer mis Mawrth.

**PENDERFYNIAD:**

**Derbyn yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a daeth i ben am 12:17

**CADEIRYDD**

# Eitem 6

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth** |
| **DYDDIAD** | **29 Mehefin, 2021** |
| **PWNC** | **Holiadur Bodlonrwydd Aelodau** |
| **PWRPAS** | **Rhannu ymatebion yr Holiadur Bodlonrwydd Aelodau gyda'r Tîm Gwasanaethau Democratiaeth** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad.** |
| **AWDUR** | **Annes Sion<br>Arweinydd Tîm Democratiaeth** |

1. Yn ôl ym mis Ebrill bu i'r Holiadur Bodlonrwydd Aelodau gael ei anfon allan ar e-bost i holl aelodau'r Cyngor. Roedd modd ymateb i'r holiadur hyd ganol mis Mehefin.

2. Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau o ran bodlonrwydd gyda gwaith y tîm, unrhyw ddatblygiadau y gallai'r tîm ei wneud i'r dyfodol, yn ogystal a rhoi cyfle i Aelodau roi barn ar drefniadau pwyllgorau i'r dyfodol.

3. Derbyniwyd 38 o ymatebion ac mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r prif negeseuon a amlygwyd gan yr aelodau.

4. O ran bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i aelodau, nododd 92% fod y gwasanaeth yn dda iawn neu'n dda, gyda 8% yn credu ei fod yn dderbyniol. Derbyniwyd nifer o sylwadau ychwanegol, a oedd yn cynnwys y detholiad byr isod:

" Mae hi yn gallu bod yn dawelwch meddwl wrth wybod bod rhywun ar gael i roi cymorth i ni os bydd angen ag yn wastad yn barod i helpu"

"Since becoming a Gwynedd Councillor I have learned from a number of sources. The assistance and guidance have been excellent. Your professionalism is there for all to see."

"Yn wyneb y cofid mae'n rhaid canmol y Cyngor ar y ffordd y mae pethau yn cael ei trefnu dan amgylchiadau anodd".

5. Holwyd a oes unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau y gall y tîm eu gwneud i gefnogi aelodau ymhellach yn eu rôl fel Cynghorwyr. Ymhlith y sylwadau nodwyd anfodlonrwydd gyda'r drefn Cabinet unwaith eto, ond rhaid pwysleisio mai dyma'r drefn statudol ac nad oes unrhyw gamau y gall y Tîm ei wneud i newid y drefn hon.

6. Nodwyd yr angen am sesiynau hyfforddiant ar reoli amser a datblygu hunanhyder. Anfonwyd y sylwadau ymlaen i'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu. Holwyd yn ogystal am gymorth gyda gwaith yn y gymuned, a bydd y tîm yn ystyried y posibiliadau o ran cefnogaeth o'r fath gan drafod gan gychwyn gyda holi Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am unrhyw gefnogaeth a ddarperir ganddynt.

7. Tynnwyd sylw at yr angen i sicrhau cyswllt rheolaidd gyda aelodau. Bydd y tîm yn edrych ar wahanol opsiynau i gadw cysylltiad, yn enwedig yn ystod y cyfnod ble mae cyfarfodydd yn parhau yn rhithiol. Mae sesiynau dros baned wedi bod yn cael eu cynnal gyda Chynghorwyr benywaidd, ac efallai fod modd ychwanegu sesiynau o'r fath i'r holl aelodau. Byddent yn gyfle i godi unrhyw gwestiynau, trafod unrhyw broblemau ac i gymdeithasu.

8. Amlygwyd yr angen am sesiynau pellach ar y defnydd o Zoom, Teams a'r Mewnrwyd Aelodau ac mae sesiynau eisoes wedi ei trefnu gan yr adran TG a Democratiaeth.

9. Unwaith eto, nodwyd cais gan ambell aelod am rifau ffôn i gysylltu yn uniongyrchol â swyddogion y Cyngor. Er fod rhestr o gysylltiad defnyddiol ar y fewnrwyd aelodau newydd, mae'r adran ynghyd ar adran TG yn edrych ar y posibilrwydd o greu cyfarwyddiadur mewnol ar Fewnrwyd Aelodau a fydd yn rhestru cyfeiriadau ebost generig.

10. Nododd un aelod fod cost defnydd ffôn symudol wedi codi yn aruthrol dros y flwyddyn diwethaf – nid oes gennym drefniadau ar gyfer ymateb i hyn ar hyn o bryd, ond byddwn yn rhoi ystyriaeth iddo i'r dyfodol.

11. Eleni, yn sgil y newidiadau i drefniadau gweithio o ganlyniad i Covid-19, gofynnwyd am farn aelodau ar gynnal pwyllgorau i'r dyfodol. Bu i 84% o'r aelodau fynegi yr awydd i'r pwyllgorau fod yn gyfuniad o gyfarfodydd yn y Siambr a chyfarfodydd rhithiol, 8% nodi yn y Siambrau yn unig a 8% nodi yn rhithiol yn unig.

12. Yn amlwg mae'r tîm yn gweithio ar ddatrysiadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid yn unol â gofynion y ddeddf, a bydd mwy o drafodaeth ar y mater yn ystod eitem 6. Yn annatod roedd llawer o wahaniaeth barn ar y mater ond gweler isod rai o'r sylwadau a dderbyniwyd gan Aelodau:

"Mae'n amlwg bod y drefn yn mynd i newid yn y dyfodol ag mae pwyllgorau rhithiol wedi gweithio yn dda iawn. Wrth edrych i'r dyfodol byddai yn gwneud synnwyr cynnal pwyllgorau sydd ddim yn parhau yn hir yn rhithiol, fel sydd wedi cael ei ddweud mae rhywun mwy yn y car yn teithio i Gaernarfon nag ydynt yn y pwyllgor. Mae'n amlwg byddai yn well cynnal cyfarfodydd mawr e.e Cyngor Llawn yn y siambr oherwydd y nifer

sydd yn bresennol (er mae angen rhoi clod i'r gwaith sydd wedi cael ei wneud gan y Swyddogion i gynnal cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn yn rhithiol)"

"There is definitely a place for Virtual meetings, They have their advantages. No traveling, Money saved on traveling expenses. Attend from virtually anywhere. But, there is no interaction between members and a lack of dynamics that a live meeting has. I think a mixture of both is here to stay"

"Dylai y Pwyllgor Cynllunio fod yn y siambr er tegwch i bawb gan gynnwys yr ymgeiswyr. O bosib dylai pob Pwyllgor gyfarfod yn y siambr unwaith y flwyddyn er mwyn cadw cysylltiad a rhwydweithio. Y Cyngor Llawn yn y siambr eto i sicrhau cysylltiadau ac rhwydweithio."

"Dwi'n meddwl bod neud pethau'n rhithiol yn llawer mwy cyfleus, yn enwedig i rywun sy'n gweithio'n llawn amser, a mae'n golygu nad oes angen teithio sy'n ychwanegu at yr amser. Y bennaf mi fyddwn yn ffafrio i ran fwyaf o'r cyfarfodydd fod yn rhithiol, ond mi fyddai'n dda i'r Cyngor Llawn o bosib fod wyneb yn wyneb yn y siambr."

"Dwi'n credu y gall sustem 'hybrid' fod yn fendithiol ond bydd angen ei dreialu yn ofalus i sicrhau tegwch i gyfranogwyr rhithiol"

"Nid yw cyfarfodydd rhithiol yn cynnig y cyfle i Aelodau edrych i fyw llygaid cyfranwyr a thrwy hynny'n eu hamddifadu o'r gallu i werthfawrogi'n llawn cyfeiriad y drafodaeth"

"weithiau mae yn dda cael trafodaeth yn wyneb i wyneb"

13. Byddwn yn ystyried y sylwadau wrth ddatblygu ein trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid a rhithiol llwyr i'r dyfodol.

14. PENDERFYNIAD A GEISIR

    **Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad.**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth |
| **DYDDIAD** | 29/06/2021 |
| **TEITL** | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 |
| **PWRPAS** | • Cyflwyno'r rhaglen waith drafft<br>• Gofyn am arweiniad ar y cyfeiriad ar gyfer darpariaeth TG yn dilyn yr etholiad |
| **ARGYMHELLIAD** | **Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth**<br>• **gymeradwyo y rhaglen waith gyffredinol a gofyn am ddiweddariad i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd. (16/11/2021)**<br>• **am gefnogaeth**<br>  • **Ar y cyfeiriad sydd wedi ei amlinellu yn y papur hwn ar gyfer darpariaeth TG i aelodau etholedig yn dilyn etholiad 2022**<br>  • **I'r Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith gydweithio gyda'r timau TG a Dysgu a Datblygu i finiogi'r trefniadau a amlinellwyd uchod**<br>  • **I adrodd ymhellach i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ym mis Tachwedd 2021** |
| **AWDUR** | Vera Jones,<br>Rheolwr Democratiaeth ac Iaith |

RHAGAIR

1. Rydym oll yn ymwybodol fod etholiadau Llywodraeth Leol yn cael eu cynnal ym mis Mai 2022. Yn sgil hyn mae cryn waith paratoi – gennych chi fel aelodau etholedig, gan y grwpiau gwleidyddol, ac yn ychwanegol gennym ni fel swyddogion.

2. Mae'r gwaith eisoes ar y gweill, gyda phedwar prif thema i'w hystyried. Mae'r themâu sydd wedi eu hadnabod fel a ganlyn:
   - Paratoi (gan gynnwys hybu amrywiaeth)
   - Darpariaeth technoleg gwybodaeth
   - Canlyniadau/ diwrnod etholiad
   - Anwytho a'r rhaglen hyfforddiant

3. Paratoi.
   Yn naturiol, mae nifer o is-rannau fesul thema. Mae'r rhaglen waith ar gyfer yr elfen paratoi yn cynnwys:

| Cam gweithredu | Manylion |
|---|---|
| Sicrhau gwybodaeth lawn i ddarpar ymgeiswyr ar y safle we | Mae'r gwaith yn cynnwys adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd cyn etholiadau 2017 gan ddiweddaru'r wybodaeth gyfredol a'i wneud yn haws i'w ddarganfod. |

| Cam gweithredu | Manylion |
|---|---|
| Cyfathrebu/ wythnos democratiaeth i hybu amrywiaeth | • Byddwn yn bwrw ati i greu fideos syml i esbonio beth yw rôl cynghorydd gan annog amrywiaeth mewn democratiaeth ar yr un pryd.<br>• Gweithgareddau wythnos democratiaeth ym mis Hydref, gan gynnwys ffair wybodaeth ac ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol |
| Wardiau etholiadol | • Byddwn yn sicrhau ymateb i'r newidiadau gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (disgwylir dyfarniad erbyn diwedd mis Medi 2021) |
| Gwybodaeth – mewnrwyd a llawlyfr | • Datblygu'r mewnrwyd aelodau i sicrhau fod gwybodaeth addas arno (yn arbennig ar gyfer yr aelodau newydd yn 2022)<br>• Cynhyrchu llawlyfr byr sy'n cynnwys y prif wybodaeth sydd ei angen ar Gynghorydd newydd. |

4. Nodwyd uchod fod gwaith paratoi ar gyfer wythnos democratiaeth yn mynd yn ei flaen. Yn ychwanegol, mae gwaith yn parhau ar y cyd gyda'r tîm etholiadau i hybu ymwybyddiaeth o ddemocratiaeth ac amrywiaeth gyda phobl ifanc, gydag 'ymweliadau' i ysgolion yn cael ei beilota ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor heddiw yn cyflwyno drafft o Ddatganiad Amrywiaeth y Cyngor, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf 2021.

5. <u>Darpariaeth Technoleg gwybodaeth</u>
   Ceisir barn y pwyllgor ar y materion sydd wedi eu codi yn y papur yn **Atodiad A** ynghlwm.

6. <u>Canlyniadau/ diwrnod etholiad</u>
   Bu cryn werthfawrogiad o'r gwaith a wnaethpwyd gogyfer etholiadau 2017, yn arbennig y llwyddiant i gyhoeddi canlyniadau'r etholiad fesul ward fel ag yr oeddent yn cael eu datgan. Byddwn yn sicrhau fod trefniadau mewn lle i gael llwyddiant cyffelyb yn 2022.

7. <u>Anwytho a'r rhaglen hyfforddiant.</u>
   Mae dwy brif elfen i'r gwaith anwytho, sef y dyddiau croeso a'r rhaglen hyfforddiant am y flwyddyn gyntaf.

8. Bu canmoliaeth am y trefniadau yn dilyn etholiad 2017, yn arbennig y dyddiau croeso. Fodd bynnag, nodwyd ar y pryd fod gwersi i'w dysgu. Cynhaliwyd gweithdai yn fuan ar ôl yr etholiadau i ddysgu gwersi tra roedd materion yn ffres yn y cof. Rydym wedi derbyn sylwadau eraill dros y blynyddoedd hefyd, sydd am fod o gymorth wrth lunio trefniadau gwahanol a gwell ar gyfer 2022.

9. Byddwn, yn naturiol, yn rhoi ystyriaeth lawn i'r sylwadau sydd wedi codi ynghylch ein sefyllfa bresennol o weithio'n rhithiol yn sgil y cyfyngiadau sydd arnom, a'r angen i geisio sicrhau fod cyfle i aelodau newydd gyfarfod ei gilydd, aelodau sy'n dychwelyd a phrif swyddogion, a hynny mewn ystafell neu siambr.

10. Mae'r prif gamau gweithredu ar gyfer yr elfen yma o waith wedi ei nodi isod.

| Cam gweithredu | Manylion |
|---|---|
| Diwrnod / dyddiau croeso | • Adlewyrchu ar y gwersi a ddysgwyd o 2017.<br>• Llunio rhaglen ddrafft yn ymateb i'r gwelliannau o 2017.<br>• Sicrhau blaenoriaethu'r materion sydd angen sylw ar ddyddiau croeso, gan arfogi aelodau i gyfeirio at y mewnrwyd aelodau, hyfforddiant ar lein ayyb ar gyfer gwybodaeth bellach. |
| Rhaglen anwytho y flwyddyn gyntaf | Blaenoriaethu hyfforddiant angenrheidiol gan geisio daro'r balans rhwng sicrhau fod aelodau, yn arbennig aelodau newydd, wedi eu harfogi gyda'r wybodaeth angenrheidiol i gyflawni'r rôl, ond nad ydynt yn cael eu boddi gyda gormod o hyfforddiant. Byddwn hefyd yn ystyried gwahanol ddulliau o hyfforddiant. |

11. Mae datblygiadau yn unol â'r rhaglenni gwaith a nodir yn fras uchod eisoes wedi cychwyn gan wahanol dimau o swyddogion. Croesewir unrhyw sylwadau ar y rhaglen waith.

12. PENDERFYNIAD A GEISIR
    **Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth gymeradwyo y rhaglen waith gyffredinol a gofyn am ddiweddariad i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd. (16/11/2021)**

**ATODIAD A**

**TG yn dilyn etholiad Llywodraeth Leol, Mai 2021**
**(papur trafod er mwyn adnabod y ffordd ymlaen)**

2. Mae'r cyfnod covid wedi dangos yn glir fod sgiliau TG a darpariaeth technegol i gefnogi hynny yn allweddol i aelodau etholedig. Rydym wedi cychwyn trafod y gofynion ar gyfer y cyfnod yn dilyn etholiad Mai 2022, ac felly dyma gasgliad o'r sefyllfa fel ag y mae'n sefyll ar hyn o bryd.

3. Cyn etholiad 2017 daeth criw o aelodau at ei gilydd gyda rhai swyddogion allweddol i ddewis y ddarpariaeth mwyaf addas ar gyfer y cyfnod 2017 – 2021(fel ag oedd y sefyllfa bryd hynny). Penderfynwyd ar y surface pro.

4. Mae nifer o wersi wedi eu dysgu dros y cyfnod hwnnw, yn bennaf
    - Nad oedd y Surface pro yn addas i bwrpas i bawb (yr elfen Windows wedi bod yn anodd i'w ddeall gan lawer yn dilyn newid o ipads)
    - Mai'r system yn y cefndir sy'n bwysig
    - Fod angen dewis o ddarpariaeth er mwyn ateb gofynion unigolion o aelodau a'u gwahanol rolau

5. O brofiad hyd yma, mae'n amlwg fod angen i aelodau etholedig, fel isafswm, allu
    - Ymdrin ag ebyst (deall sut i'w derbyn a'u hateb)
    - Rheoli calendr electroneg
    - Darllen papurau pwyllgor yn electroneg
    - Cymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithiol (yn ffurfiol ac yn anffurfiol)
    - Mynediad i mewnrwyd aelodau
    - Ymdrin â chyfryngau cymdeithasol os ydynt yn dewis gwneud hynny

6. Mae gwahanol rolau gan aelodau, megis cadeirio cyfarfodydd rhithiol, creu adroddiadau neu roi sylwadau ar adroddiadau fel aelodau cabinet, ac eraill yn dymuno rheoli materion ward yn electroneg. Mae'n amlwg felly fod gofynion gwahanol gan rai aelodau.

7. Wrth drafod hefo aelodau, mae'n amlwg fod darpariaeth wahanol am siwtio gwahanol bobl. Mae rhai yn ffafrio tabled syml hawdd ei gludo, gan efallai ddefnyddio cyfarpar personol hefyd, eraill (megis Cadeiryddion pwyllgorau neu Aelodau Cabinet) yn ffafrio gliniadur ac eraill yn dymuno rhywbeth gwahanol eto.

8. Mae'n amlwg fod angen sefydlu trefn wahanol ar gyfer sicrhau darpariaeth electroneg addas i bwrpas ar gyfer yr holl aelodau etholedig yn dilyn etholiad Mai 2022. Awgrymir y bydd angen rhoi dewis i'r aelodau etholedig. O roi dewis i aelodau, mae'n rhaid ystyried a chydnabod y bydd hynny, o bosib, yn cymryd rhywfaint o amser i gyflenwi peiriant i bawb. Awgrymir hefyd y bydd rhaid cael trefn i flaenoriaethu sut i rannu'r adnoddau rhwng y "gwahanol gategorïau" o aelodau: aelodau'n dychwelyd yn ddi-wrthwynebiad, aelodau newydd, aelodau'n dychwelyd.

9. Yn dilyn etholiad 2022 awgrymir cyflwyno "bwydlen" o ddewis i'r aelodau, gyda dwy brif opsiwn ar hyn o bryd:

a) defnyddio cyfarpar personol,
b) dewis o ddarpariaeth a gyflenwir, cefnogir a rheolir gan y Cyngor – ni fydd modd defnyddio'r ddyfais ar gyfer materion personol (ee defnyddio y peiriant i lawrlwytho apiau y tu allan i'r hyn sy'n cael ei gynnig gan y Cyngor). Rhaglwelir y byddai'r dewis yn cynnwys dyfais android/ ipad / gliniadur – yn amlwg yn ddibynnol ar ddatblygiadau dros y misoedd nesaf.

10. Argymhellir fod y gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith yn gweithio gyda'r tîm TG i ddarparu trefniadau yn dilyn etholiad mis Mai 2022 yn seiliedig ar yr uchod.

11. Rydym hefyd yn ymwybodol fod y gofyn am sgiliau TG yn angenrheidiol ar gyfer rôl aelod etholedig. Fodd bynnag, mae'n rhaid sicrhau nad ydym, trwy hynny, yn cau'r drws ar unigolyn i beidio sefyll. Bydd yn ofynnol felly i sicrhau fod ein paratoadau yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer defnyddio technoleg.

12. Argymhellir felly fod y gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith yn gweithio gyda'r tîm TG a'r tîm Dysgu a Datblygu i ddatblygu hyfforddiant TG yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2022.

13. PENDERFYNIAD A GEISIR

**Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am gefnogaeth**

- **Ar y cyfeiriad sydd wedi ei amlinellu yn y papur hwn ar gyfer darpariaeth TG i aelodau etholedig yn dilyn etholiad 2022**
- **I'r Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith gydweithio gyda'r timau TG a Dysgu a Datblygu i finiogi'r trefniadau a amlinellwyd uchod**
- **I adrodd ymhellach i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ym mis Tachwedd 2021**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth |
| **DYDDIAD** | 29/06/2021 |
| **PWNC** | Datganiad y Cyngor ynghylch Amrywiaeth |
| **ARGYMHELLIAD** | Cyflwyno datganiad drafft i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth er sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w fabwysiadu |
| **AWDUR** | Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth |

1. Mae'r pwyllgor wedi trafod yr angen i hybu amrywiaeth mewn democratiaeth lawer tro, gyda nifer o gamau wedi eu cymryd dros y blynyddoedd i geisio annog mwy o bobl o amrywiol gefndiroedd i sefyll mewn etholiadau.

2. Roedd prosiect penodol wedi ei gynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb y Cyngor 2016-20, gyda'r gwaith bellach yn parhau trwy ein gwaith dyddiol. Fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad ynghylch paratoi at etholiadau 2022, mae camau pellach i annog amrywiaeth mewn democratiaeth yn digwydd mewn gwahanol feysydd.

3. Yn ychwanegol, mae Arweinyddion Gwleidyddol pob awdurdod yng Nghymru wedi bod yn trafod sut i annog mwy o bobl o gefndiroedd gwahanol i sefyll yn etholiadau llywodraeth leol 2022. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi gweithio gyda'r arweinyddion gan adnabod nifer o gamau posib i'w cymryd, rhai i gael eu gweithredu ar lefel genedlaethol, eraill ar lefel wleidyddol, ac ambell awgrym ar lefel lleol.

4. Un o'r materion sydd wedi ei gyd-weld yw fod pob Cyngor yn mabwysiadu Datganiad Amrywiaeth er mwyn dangos yn glir a chyhoeddus ein ymrwymiad i amrywiaeth mewn democratiaeth.

5. Mae Cyngor Gwynedd yn amlwg yn gefnogol i ddatganiad o'r fath. Cyflwynir isod ddrafft o ddatganiad Cyngor Gwynedd.

   *Mae'r Cyngor hwn yn ymrwymo i fod yn Gyngor Amrywiol. Trwy hynny, rydym yn awyddus i fod yn adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi gan, yn y lle cyntaf, geisio cynyddu'r niferoedd o ferched, pobl ifanc, pobl anabl a lleiafrif ethnig sy'n sefyll etholiad i fod yn Gynghorydd Gwynedd.*

   *Rydym yn ymrwymo i*

- *Ddarparu ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth mewn democratiaeth*
- *Ddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, a hyrwyddo'r safonau ymddygiad uchaf*
- *Lunio Cynllun Gweithredu Cyngor Amrywiol lleol cyn etholiadau lleol 2022.*
- *Weithio ar y safonau a nodir yn Siarter Cymru ar gyfer Cymorth a Datblygu i Aelodau.*

- *Ddangos ymrwymiad i dyletswydd gofal dros Gynghorwyr*
- *Ystyried sut i ddarparu hyblygrwydd ym musnes y cyngor drwy adolygu ein trefniadau ymarferol*
- *Barhau i annog fod yr holl aelodau yn derbyn y lwfansau a'r cyflogau y mae ganddynt hawl eu derbyn, ac yn benodol unrhyw ad-daliadau am gostau gofal, fel bod yr holl aelodau yn derbyn cydnabyddiaeth deg am eu gwaith ac nad yw rôl yr aelodau yn gyfyngedig i'r rhai all ei fforddio.*
- *Weithio tuag at sicrhau bod cynghorwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn cael eu cynrychioli pryd bynnag fo'n bosibl mewn rolau proffil uchel a dylanwad uchel.*

6. PENDERFYNIAD A GEISIR

**Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth**

- **am sylwadau ar gynnwys y datganiad drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 08/07/2021**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth |
| **DYDDIAD** | 29/06/2021 |
| **TEITL** | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |
| **PWRPAS** | • Cymeradwyo polisi drafft ar sicrhau mynediad i'r cyhoedd i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 08/07/2021<br>• Treialu trefniadau webinar |
| **AWDURON** | Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ac<br>Iwan Evans, Swyddog Monitro |

**Rhagair**

1. Mae cryn hanes i'r Ddeddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau ( Cymru) 2021 sydd a'i wreiddiau ym Mil Lywodraethol Leol ( Cymru) gyflwynwyd gan y cyn Weinidog Lywodraeth Leol Leighton Andrews yn 2015.

2. Derbyniodd y Ddeddf Gyd-Syniad brenhinol ar yr 20fed o Ionawr 2021 . Mae naw prif ran i'r Ddeddf gyda rhai darpariaethau mewn grym eisoes ond rydym yn parhau i ddisgwyl ar gyhoeddi rheoliadau neu arweiniad statudol perthnasol. Adroddwyd ar y Ddeddf i'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2021.

**Mynediad i'r Cyhoedd**

3. Mae hawl mynediad y cyhoedd a'r wasg i gyfarfodydd y Cyngor, ei Bwyllgorau a'r Cabinet yn egwyddor statudol sylfaenol yn Neddfwriaeth Llywodraeth Leol. Yn flaenorol roedd hyn yn seiliedig ar sicrhau mynediad y cyhoedd a'r wasg i'r ystafell/ siambr lle cynhaliwyd y cyfarfod (heblaw am faterion Eithriedig) . Dylid nodi, er fod yr egwyddorion bron yr un peth, mae trefniadau Cabinet mewn cyfundrefn benodol ar wahân .

4. Mae Rhan 4 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn addasu y ddeddfwriaeth yma drwy ganiatáu i'r Awdurdod gynnal cyfarfodydd yn rhithiol. Hynny yw, fod mynediad y cyhoedd a'r wasg yn cael ei ddarparu yn rhithiol. Gall hyn fod drwy we-ddarlledu y cyfarfod ond gall fod drwy ddulliau electroneg eraill sydd yn caniatáu iddynt weld a chlywed y cyfarfod. Felly, lle mae cyfarfod sydd yn llwyr drwy drefn rhithiol, yn hytrach na datgan amser a lleoliad y cyfarfod ar flaen y rhaglen, rhaid datgan sut y gellir cael mynediad i'r cyfarfod.

5. Mae rhaid i'r Cyngor yn ôl Adran 47 o'r Ddeddf fabwysiadu a chyhoeddi trefniadau sydd yn golygu fod modd cynnal cyfarfodydd drwy gyfrwng cyfarpar sydd yn caniatáu i bersonau nad ydynt yn yr un lle fynychu'r cyfarfod. Gall cyfarfodydd o'r fath fod yn llwyr drwy drefniadau rhithiol neu yn gyfuniad o gyfarfod sydd yn cael ei gynnal mewn lleoliad gyda rhai yn mynychu o bell. Er y gellir cynnal cyfarfod sydd yn llwyr mewn ystafell gyfarfod neu siambr rhaid dal sicrhau fod modd i'r rhai sydd yn cymryd rhan fynychu o bell. Mae'r term "hybrid " yn cael ei ddefnyddio ar gyfer disgrifio cyfarfodydd sydd yn cael eu cynnal yn y modd yma, er mae'n debyg y bydd yn cynrychioli trefn lled arferol i'r dyfodol.

6. Mae'n ofyn sylfaenol ( heblaw fod eitemau yn eithriedig) fod cyfarfodydd yn agored i'r wasg a'r cyhoedd. Yn y gorffennol cyflawnwyd y dyletswydd yma drwy gael mynediad y cyhoedd

a’r wasg i weld a gwrando ar y cyfarfod yn y lleoliad y’i cynhaliwyd. Roedd gwe ddarlledu yn cefnogi hyn ond nid oedd yn cyfarch y gofyn statudol. Bellach mae mynediad(“access”) wedi ei ehangu i gynnwys mynediad drwy ddulliau electroneg boed hynny yn we ddarlledu neu gyfrwng electroneg arall priodol. Mae hyn felly yn agor y drws i gyfarfodydd rhithiol cyhoeddus.

7. Mae’r ddarpariaeth yma mewn grym ers 1af o Fai eleni. Fel rhan o’r gwaith mae gofyn fod yr Awdurdod yn mabwysiadu a chyhoeddi eu trefniadau ar gyfer cyflawni y gofynion yma a’i ail gyhoeddi os cyfyd newidiadau.

8. Ar hyn o bryd rydym yn parhau i gynnal cyfarfodydd rhithiol yn unig. Mae gwaith prosiect penodol wedi ei sefydlu sy’n edrych ar y gwaith i ddatblygu’r dechnoleg angenrheidiol er mwyn cynnig cyfarfodydd hybrid - cyfarfodydd sy’n caniatáu mynediad o bell ac mewn lleoliad penodol. Mae’r datblygiadau hyn yn symud yn eu blaen. Bydd yn angenrheidiol sicrhau bod y ddarpariaeth yn dechnegol rhwydd i’w ddefnyddio ac yn ateb gofynion dwyieithrwydd, materion pleidleisio, gwe ddarlledu ayyb.

9. Mae hyn yn hefyd yn ddarostyngedig i reoliadau Coronafeirws sydd yn berthnasol i'n penderfyniadau ynglŷn a mynychu swyddfeydd.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

10. Mae’r Cyngor yn ddarostyngedig i ddyletswydd dan Deddf Cydraddoldeb 2010 i ddal sylw priodol at yr angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu a gormesu anghyfreithlon, ynghyd ag ymddygiadau eraill a waherddir dan ddarpariaethau‘r Ddeddf. Yn ogystal mae angen cynyddu cyfle cyfartal a hyrwyddo perthnasau da rhwng y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a’r rhai nad oes ganddynt ( y Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol). Yn unol â’r gofyn yng Nghymru, ac er cyfarch y dyletswydd yma, mae Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb wedi ei baratoi.

11. Yn ogystal, mae’n hanfodol sicrhau hyfforddiant i Aelodau, yn arbennig i Gadeiryddion pwyllgorau, ar sut i gynnal cyfarfod hybrid gan fod deinameg pwyllgorau o’r fath am fod yn bur wahanol.

12. Felly, er mwyn ymateb i’r gofynion uchod, awgrymir y dylid sefydlu a chyhoeddi ein trefniadau dros dro tra bo’r gwaith datblygol uchod yn digwydd. Bydd angen adolygu’r trefniadau yn gyson. Byddwn yn adrodd diweddariad i gyfarfod y Cyngor llawn ym mis Hydref 2021.

13. Mae’r polisi yn cynnwys dwy opsiwn ar gyfer galluogi mynediad i’r cyhoedd yn y tymor byr:

- Gwe ddarlledu byw
- Rhannu dolen i’r cyfarfod fydd yn cael ei gynnal fel webinar

**Gwe ddarlledu byw**

14. Mae’r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwe ddarlledu byw mandadol o gyfarfodydd o Fai 2022 . Er fod ystod o gyfarfodydd y Cyngor o fewn y sgôp disgwyliedig, bydd rhaid disgwyl

rheoliadau ac  ymgynghori arnynt er deall union sgôp y gofyn. Fodd bynnag, mae'n ofyn ychwanegol i destun yr adroddiad yma.

15. Mae cyfarfodydd rhithiol y Cyngor llawn a'r Cabinet yn cael eu gwe ddarlledu yn fyw ers Hydref a Tachwedd 2020.  Mae cyfarfodydd y pwyllgor cynllunio yn cael eu gwe ddarlledu yn fyw ers mis Mai 2021.  Noder fod gwe ddarlledu yn fyw yn golygu cryn fewnbwn adnodd gan y Tîm Gwasanaethau Democratiaeth.

16. Cyn y pandemig roedd y cyfarfodydd a ganlyn yn cael eu  gwe ddarlledu'n fyw:

- Cyngor llawn (√ - wedi adfer y sefyllfa)
- Cabinet (√ - wedi adfer y sefyllfa)
- Cynllunio – cyfarfodydd o Gaernarfon yn unig (√ - wedi adfer y sefyllfa flaenorol, ac wedi datblygu ymhellach wrth we ddarlledu pob cyfarfod cynllunio rhithiol)
- Craffu
- Archwilio a Llywodraethu (cyfarfod mis Chwefror wrth drafod y gyllideb)

**Webinar**

17. Byddwn yn treialu trefn webinar ar gyfer pwyllgorau eraill.  Mae cynnal y cyfarfod fel webinar yn golygu fod modd i hyd at 100 o'r cyhoedd ddilyn y ddolen i wylio'r cyfarfod, ond NI FYDD modd iddynt gymryd rhan.

18. Ni fydd yn golygu newid mawr i aelodau etholedig Gwynedd, ond bydd yn golygu fod yn rhaid i bob aelod gofrestru cyfrif yn Zoom a defnyddio yr ap i fynychu unrhyw gyfarfod.  Mae trefniadau eisoes mewn lle i gysylltu gyda'r unigolion sydd heb gofrestru hyd yma i'w cynorthwyo i wneud hynny.

19. Yn ychwanegol, bydd yn ofynnol sicrhau fod swyddogion sy'n mynychu'r pwyllgorau hefyd yn ymwybodol o'r gofynion, ac mae gwaith yn mynd yn ei flaen i sicrhau hynny.

20. Mae cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth heddiw yn cael ei gynnal fel webinar er mwyn peilota'r trefniadau a sicrhau fod cyfle i addasu neu ymateb i unrhyw anghenion ychwanegol cyn cychwyn ehangu'r  trefniadau i bwyllgorau eraill.    Yn ychwanegol, mae'r Pwyllgor Pensiynau, gynhaliwyd ar 24/06/21 wedi ei gynnal fel webinar.  Yn ddibynnol ar lwyddiant y trefniadau heddiw, bwriedir cyflwyno'r trefniadau  drafft a nodir isod i gyfarfod y Cyngor llawn ar 08/07/2021. Fel y nodwyd uchod mae trefniadau'r Cabinet yn gweithredu dan gyfundrefn amgen a bydd y Cabinet yn gyfrifol am benderfynu pa drefn i'w ymgorffori yn eu trefniadau.

**Cyfansoddiad**

21. Bydd angen addasu y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r Ddeddfwriaeth yma.  Bydd hyn yn cynnwys:

    1. Newid y diffiniad o Cworwm er cyfarch mynychu o bell
    2. Addasu hawliau mynediad y cyhoedd a'r wasg er cydnabod y cyd-destun electroneg newydd a'r trefniadau statudol amgen.

**<u>Trefniadau drafft i'w cyflwyno i'r Cyngor llawn – Gorffennaf 8fed, 2021</u>**

22. Mae Cyngor Gwynedd yn parhau i gynnal cyfarfodydd rhithiol yn unig yn ystod y cyfnod o fis Mai 2021 ymlaen hyd oni nodir yn wahanol. Yn y cyfamser byddwn yn parhau i ddatblygu ein trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid ac yn sicrhau diogelwch dychwelyd i'r siambrau. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa yn gyson.

23. Er mwyn sicrhau mynediad i'r cyhoedd i weld a chlywed trafodaethau byddwn yn gwe ddarlledu y cyfarfodydd a ganlyn yn fyw:
    - Cyngor llawn
    - Cabinet
    - Pwyllgorau Cynllunio

24. Ar gyfer cyfarfodydd eraill – bydd dolen ar flaen y rhaglen yn nodi fod y cyfarfod yn un rhithiol, ond bod modd i aelodau'r cyhoedd gael mynediad i wylio'r webinar trwy ddilyn y linc perthnasol ar flaen y rhaglen neu gyfarwyddyd amgen.

25. Byddwn yn adrodd yn ôl ar ddatblygiadau technegol i'r trefniadau hybrid i gyfarfod y Cyngor llawn ym mis Hydref 2021. Yn y cyfamser, gall y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd pwyllgorau unigol, gytuno i gynnal peilot o unrhyw drefniadau arfaethedig.

26. Noder fod y protocol ar gyfer cyfarfodydd rhithiol wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn ac yn rhan annatod o'n trefniadau cyfredol.

**27. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am eu cefnogaeth i'r trefniadau dros dro er mwyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 08/07/2021**

**Atodiad 1**
**(Cyng. = Cyngor Lawn , Cab=Cabinet , PALl = Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, PGD =Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd PS= Pwyllgor Safonau)**

| Darpariaethau | Disgrifiad | Darpariaeth Mewn Grym | Swyddog Cyfrifol | Camau Paratoi / Adnoddau | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan 3 Hybu Mynediad at Lywodraeth Leol,** | 1. Hawl i gynnal cyfarfodydd ffurfiol ar sail "hybrid" a rhithiol ond mae angen mabwysiadu Polisi<br>2. Rhoi hawl mynediad o bell gan aelodau ar sail statudol<br>3. Ymgorffori newidiadau i faterion megis cyhoeddi rhaglenni cyfarfodydd ac ymdrin a materion megis cyhoeddi penderfyniadau.<br>4 Dyletswydd i annog cyfranogiad y cyhoedd mewn materion megis penderfyniadau<br>6. Gofyn i fabwysiadu Strategaeth Cyfranogiad<br>7. Gofyn i fabwysiadu Cynllun Deisebau<br>8 Gosod gofyn statudol i we ddarlledu ystod o gyfarfodydd.<br>9. Gofyn cyhoeddi Canllawiau i'r Cyfansoddiad | 1,2,3 Mewn Grym Mai 1 2021<br><br>4- 9 Mewn grym Mai 2022 | Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol | Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith i arwain ar faterion yn ymwneud â mynediad o bell, cyfranogiad a chyhoeddi rhaglenni ayyb<br><br>Gwasanaethau Cyfreithiol i arwain ar adolygu Cyfansoddiad a pharatoi Canllawiau . | Adrodd ar 1,2,3 i PGD a Cab Mehefin 2021 gyda adroddiad i'r Cyng. Mis Gorffennaf gyda argymhelliad Polisi cyfarfodydd rhithiol.<br><br>4- 7 adroddiad i Cab Hydref 2021.<br><br>8 Adroddiad PGD Hydref 2021 gyda cais am adnoddau i'r cylch bidio ar gyfer 2022.<br><br>9. Drafft i'r Pwyllgor PALL Hydref 2022. |
| **Rhan 4 Gweithrediaethau, Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau Awdurdodau Lleol** | 1. Sefydlu swydd dan y disgrifiad "Prif Weithredwr" ar sail statudol gyda cyfrifoldebau penodol.<br>2. Caniatáu penodi aelodau fel cynorthwyon Aelodau Cabinet<br>3. Caniatáu rhannu swyddi aelodau Cabinet | Mewn grym Mai 2022. | Pennaeth Gwasanaeth Cefnogaeth Gorfforaethol | Gwasanaethau Cyfreithiol i arwain ar adolygu Cyfansoddiad a materion Cod Ymddygiad. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 4. Caniatáu rhannu swyddi Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion<br>5. Arweinyddion Grwpiau a chyfrifoldeb statudol am ymddygiad eu haelodau<br>6. Gosod adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau i'r Cynghorau ar sail statudol. | | 5,6 Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol ( Swyddog Monitro) | Mae Swydd ddisgrifiad y Prif Weithredwr eisoes yna adlewyrchu y newid.<br><br>Disgwylir cyhoeddi rheoliadau ar 2,3 a 4 . ac adroddir ymhellach pan fyddent wedi eu cyhoeddi. | |

**CYNGOR GWYNEDD**

**Y PROTOCOL AR GYFER CYFARFODYDD RHITHIOL**

## 1. CYFFREDINOL

1.1 Paratowyd y Protocol hwn yn unol ag Adran 47 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer presenoldeb mewn cyfarfodydd awdurdodau lleol, tra mae Rhan 1, Atodlen 4 yn addasu'r ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd a dogfennau awdurdodau lleol, gan gynnwys mynediad gan y wasg a'r cyhoedd a'r gofyniad i gyhoeddi rhai dogfennau cyfarfod penodol yn electronig.

1.2 O 1 Mai 2021, bydd gofyn ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i sicrhau bod modd cynnal eu cyfarfodydd yn rhithiol, yn rhannol rhithiol neu fel cyfarfodydd ffisegol. Nid yw Adran 47 yn rhagnodi sut y dylid cynnal cyfarfodydd, ac mae hyn yn fater i bob awdurdod.

1.3 Dilynir trefniadau Rheolau Sefydlog Cyfansoddiad y Cyngor wrth gynnal cyfarfodydd. Mae'r Protocol wedi'i ddylunio i gynghori a chefnogi'r Cyfansoddiad a phan fo gwrthdaro rhwng darpariaethau, y Cyfansoddiad fydd yn trechu.

1.4 Mae cyfarfod "rhithiol" yn wahanol ac mae'n gofyn am ddull gweithio amgen. Ychwaith, nid yw'r ffordd y mae'r drafodaeth yn gweithio, na'r amgylchedd lle y gwneir cyfraniad, yr un fath â'r hyn sy'n digwydd mewn cyfarfod arferol. Diben y Protocol yma yw arwain cyfranogwyr drwy gyfarfodydd a rhoi arweiniad ar arferion gorau.

1.5 Mae'r Protocol hwn yn darparu gweithdrefn ar gyfer cyfarfodydd rhithiol i sicrhau bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn dull priodol a theg ac yn sicrhau hyder y cyhoedd yn nhrefniadau democrataidd Cyngor Gwynedd dros gyfnod yr argyfwng.

## 2. Y CYFNOD CYN Y CYFARFOD

**HYSBYSIAD, RHAGLEN AC ADRODDIAD**

2.1 Bydd y Rhaglen a'r adroddiadau'n cael eu cyhoeddi a'u cylchredeg i aelodau yn ôl yr arfer. Fel arfer, bydd dyddiad ac amser y cyfarfod yn cael eu nodi ar y rhaglen.

2.2 Anfonir gwahoddiad electronig i'r cyfarfod ac ynddo bydd linc i hwyluso mynediad i'r cyfarfod.

2.3 Bydd Hysbysiad y cyfarfod hefyd yn cynnwys manylion ynghylch amser y cyfarfodydd a sut gall aelodau'r cyhoedd gael mynediad i'r cyfarfod.

2.4 Bydd modd i aelodau'r wasg a'r cyhoedd gael mynediad i'r cyfarfod drwy un o'r dulliau a ganlyn:

(a) Gwe-ddarllediad byw, neu
(b) Cyfleusterau webinar, neu
(c) Dull amgen mewn amgylchiadau priodol.

## 3. DIWRNOD Y PWYLLGOR

### 3.1 PROFI'R SYSTEM A PHARATOI

Disgwylir i'r holl aelodau a swyddogion fewngofnodi i'r system o leiaf 20 munud cyn y cyfarfod i sicrhau bod y cysylltiadau'n gweithio. Gan fod pob un o'r 75 aelod yn cael eu gwahodd i gyfarfod y Cyngor Llawn, disgwylir i aelodau fewngofnodi i'r system 30 munud cyn y cyfarfod. Mae'r capasiti i ddatrys problemau technegol yn ystod y cyfarfod yn gyfyngedig.

Bydd Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn profi'r cysylltiadau ar unwaith yn ystod y cyfnod hwn i sicrhau:

1. Bod y ddarpariaeth yn gweithio
2. Bod gan yr holl aelodau a swyddogion sy'n cymryd rhan fynediad i'r system
3. Os oes problem dechnegol, bod datrysiad yn cael ei adnabod a'i weithredu.
4. Bod y gwasanaeth cyfieithu yn gweithio ar gyfer yr aelodau di-Gymraeg.

Bydd aelod o'r Tîm Democratiaeth yn gweithredu fel *'Host'* ac yn rheoli mynediad i'r cyfarfod. Hefyd, i hwyluso'r trefniadau, bydd cefnogaeth dechnegol ar gael mewn rhai cyfarfodydd i weithredu fel "Rheolwr Technegol" er mwyn ymdrin ag unrhyw broblemau technegol.

Bydd y swyddog cyfreithiol neu brif swyddog arall yn cadarnhau bod cworwm yn bresennol ac y gall y cyfarfod gychwyn, a bydd yn hysbysu'r cadeirydd o hynny.

Mae cworwm yn cael ei ddiffinio fel yr aelodau sy'n bresennol (wedi mewngofnodi i'r cyfarfod) drwy ddulliau electronig ac sy'n medru siarad a chael eu clywed yn y cyfarfod.

### 3.2 Y CADEIRYDD YN AGOR Y CYFARFOD

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod drwy egluro'r drefn a sut fydd popeth yn gweithio mewn cyfarfod rhithiol (gan nodi'r drefn ar gyfer caniatáu i aelodau lleol a thrydydd partïon i siarad, cynigion, ceisiadau i siarad gan aelodau'r pwyllgor a phleidleisio). Yn benodol, rhaid egluro'r hyn a ganlyn:

- Gwneir cais i siarad drwy "godi" y law rithiol ac yna aros i gael gwahoddiad i siarad gan y Cadeirydd.
- Rhaid i'r microffonau fod wedi'u tawelu bob amser, oni bai bod cyfranogwr wedi cael gwahoddiad i siarad gan y Cadeirydd. Rhaid diffodd y microffon ar unwaith ar ôl siarad.
- Egluro'r drefn o ran colli cysylltiad, ac ati (hyn yn cael ei egluro isod) a bod y rheolau o ran bod yn bresennol i wrando ar y datganiadau yn gymwys.
- Ni fydd y ddarpariaeth sgwrsio (*'chat'*) ar gael yn ystod cyfarfod.

**3.3 DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

- Bydd y Cadeirydd yn gofyn a oes unrhyw un yn datgan buddiant. Dylai aelodau nodi eu bwriad i ddatgan drwy ddefnyddio'r eicon Codi Llaw (*'Raise Hand'*), fel y gall y Cadeirydd eu gwahodd i ddatgan i'r Pwyllgor.
- Dylai aelodau nodi'r eitem a'r rheswm am ddatgan diddordeb (dylai aelodau gysylltu â'r Swyddog Cyfreithiol ymlaen llaw am gyngor er mwyn hwyluso'r broses).
- Os yw'r aelod yn datgan buddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw eitem: Pan fo'r eitem yn cychwyn, rhaid iddynt "adael" y cyfarfod. Bydd Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn sicrhau bod hyn yn digwydd drwy 'symud' yr aelodau i 'ystafell aros'. Bydd Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn sicrhau bod yr aelod yn ail-ymuno ar ddiwedd yr eitem drwy eu gwahodd yn ôl i'r prif gyfarfod o'r 'ystafell aros'.

**3.4 TRAFODAETH**

- Bydd aelodau'n nodi eu dymuniad i wneud neu eilio cynnig neu welliant neu siarad fel arall drwy ddefnyddio'r eicon Codi Llaw (*'Raise Hand'*). Ni ddylai aelodau roi eu microffon ymlaen hyd nes y mae'r Cadeirydd wedi'u gwahodd i siarad. Er mwyn cynnal trefn ac i gynorthwyo'r Cadeirydd, ar ôl siarad, bydd angen i bob aelod ostwng eu llaw drwy glicio ar yr eicon Gostwng Llaw (*'Lower Hand')* a chofio i dawelu eu microffon ar unwaith.
- Bydd y Cadeirydd yn mynd drwy'r rhain yn eu tro. I gadw trefn, dylai aelodau gyfyngu eu cyfraniad i un datganiad. Bydd y Cadeirydd yn cadw ei ddisgresiwn i ganiatáu cwestiynau ychwanegol.

**3.5 SWYDDOGION PRIODOLDEB**

Rhaid i'r Cadeirydd fod yn ymwybodol o unrhyw geisiadau gan Swyddog Statudol i dynnu sylw'r Cadeirydd i fater o drefn neu briodoldeb sydd angen ei ddwyn i sylw'r cyfarfod. Felly, os yw'r Swyddog Priodoldeb yn gwneud cais i siarad, **dylent gadarnhau p'un a yw'r swyddog yn dymuno siarad ar unwaith** mewn perthynas â mater o drefn neu p'un a fyddent yn fodlon aros eu tro. Os nad yw'r Cadeirydd yn gweld cais y Swyddog Statudol i siarad, bydd angen i'r swyddog darfu ar y cyfarfod i ddatrys y mater.

**3.6 PLEIDLAIS**

- Gellir cymryd pleidlais yn y dull a ganlyn:
  - Lle mae system bleidleisio electronig ar gael a'i bod ar gael i'w defnyddio;
  - Drwy ofyn i bob aelod sydd â'r hawl i bleidleisio, i ddatgan ar lafar sut maent am bleidleisio, h.y. o blaid y cynnig, yn erbyn y cynnig neu atal eu pleidlais.

- Mewn cyfarfod gyda 12 neu lai o aelodau gyda phleidlais, gellir defnyddio'r dull llaw electronig i bleidleisio os yw ar gael i aelodau, a bod modd gweld eu pleidlais.

- Os yw'r bleidlais yn gyfartal, bydd y Cadeirydd yn defnyddio ei bleidlais/phleidlais fwrw drwy ddatgan ar lafar yn y Pwyllgor a datgan y canlyniad yn ffurfiol.

**3.7 MATERION TECHNEGOL**

- Os, ar unrhyw adeg yn ystod y Pwyllgor, bod materion technegol yn golygu bod cyswllt sain ac/neu fideo yn cael ei golli ag aelodau neu swyddogion, bydd y Cadeirydd yn atal y cyfarfod er mwyn ceisio datrys y broblem a chaniatáu i'r aelod barhau i gymryd rhan, boed hynny gyda fideo a sain, neu gyda sain yn unig.
- Mae angen i aelodau gysylltu â'r Rheolwr Technegol neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd os ydynt yn cael anawsterau. Cyhyd ag y bo modd, rhaid i aelodau a swyddogion gael dull amgen i gysylltu â hwy, e.e. ar y ffôn, drwy e-bost neu ddull arall.
- Os yw'r problemau technegol yn parhau i'r graddau lle nad yw'r aelodau sy'n dymuno cymryd rhan yn medru gwneud hynny, a bod hyn yn cael effaith arwyddocaol ar eitem neu eitemau neu ar briodoldeb parhau, bydd y Cadeirydd yn ystyried p'un a ddylid gohirio eitem neu weddill y cyfarfod hyd ddyddiad ac/neu amser diweddarach.